



# Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

## SIR GAERFYRDDIN 2017-2020



**Diogelu Plant a Gwella Safonau Addysg i Bawb**  
**Safeguarding Children and Improving Education**  
**Standards for All**

*Ôl-Nodyn: Derbyniwyd nifer o sylwadau cadarnhaol yn ystod y broses ymgynghorol. Er nad yw rheiny'n eu hanfod yn newid y naratif a amlinellwyd yn y cynllun strategol hwn, fe roddir ystyriaeth bellach i awgrymiadau yn y cynllun gweithredu a fydd yn - gydymaith i'r ddogfen yma.*

## 1. Ein gweledigaeth yw: Sir Gaerfyrddin ddwyieithog.

**Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:** Sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl mewn Cymraeg a Saesneg ac sydd â'r gallu i ddefnyddio'u hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

## 2. Egwyddorion

- Mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i'r holl ddysgwyr, o fewn pellter teithio rhesymol i'w cartrefi.
- Bydd disgwyl i ddysgwyr sydd wedi dilyn y rhaglen Cymraeg Iaith 1<sup>af</sup> yn yr ysgol gynradd barhau â'r rhaglen hon wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.
- Gweithio gyda gwasanaethau eraill i hyrwyddo a chynyddu dwyieithrwydd.
- Dathlu cynnydd ac ymrwymiad i ddatblygu'r Gymraeg
- Bydd pob dysgwr yn dod yn rhugl mewn '*dwyl iaith a mwy*'.
- Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cyfle ieithyddol cyfartal..

## 3. Amcanion

- Sicrhau bod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog (ac amlieithog) wrth adael yr ysgol fel bod ganddynt y sgiliau i weithredu fel dinasyddion dwyieithog yn eu cymunedau, y gweithle a'r tu hwnt/yn fyd-eang.
- Hyrwyddo manteision gwybyddol, economaidd, cymdeithasol, addysgol, iechyd a chymunedol dwyieithrwydd.
- Hybu datblygiad sgiliau dwyieithog dysgwyr ar bob cyfle o fewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol fel bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol i gyfathrebu.
- Hyrwyddo cyfleoedd i rieni a'r teulu ehangach ddatblygu eu sgiliau Cymraeg fel eu bod yn gallu cefnogi datblygiad iaith eu plant.
- Darparu gwasanaethau a fydd yn sicrhau cyfleoedd dysgu o ansawdd da ar gyfer holl blant, pobl ifanc ac oedolion Sir Gaerfyrddin, a thrwy hynny'n eu galluogi i wireddu eu llawn botensial fel dysgwyr gydol oes yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r Sir.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel iaith 1<sup>af</sup> a/neu 2<sup>il</sup> iaith yn ein holl ysgolion, yn unol â Deddf Addysg 2002, a pharatoi'n rhagweithiol ar gyfer addysgu Cymraeg fel un continwwm erbyn 2020.
- Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith yn rhugl erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn unol â'u cam datblygiad disgwylidig.

- Sicrhau dilyniant o ddarpariaeth gyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i addysg gynradd ac uwchradd ddwyieithog.
- Sicrhau dilyniant ieithyddol ar draws meysydd cwricwlaidd wrth drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3, o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4 a hybu dilyniant ieithyddol o Gyfnod Allweddol 4 i ddysgu gydol oes.
- Datblygu datganiad Sirol eglur o ran disgwyliadau wrth ystyried cymhwysedd disgyblion a'r angen i sicrhau her briodol i'r holl ddisgyblion er mwyn iddynt wireddu eu potensial addysgol yn llawn;
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl ddarparwyr i wella safon y Gymraeg o fewn yr amgylchedd ddysgu .
- Datblygu a hyrwyddo rhaglenni hyfforddi a fydd yn galluogi'r gweithlu ysgolion i ennill y cymhwysedd a'r hyder i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau bod hwyrdyffodiaid yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r athrawon sy'n cefnogi datblygiad y Gymraeg er mwyn iddynt allu integreiddio'n naturiol yn eu hysgol a'u cymuned leol. Ystyried ail-fodelu darpariaeth a gwerthuso dichonolrwydd sefydlu canolfan trochi i hwyrdyffodiaid o fewn oes y cynllun –yn ddibynol ar faterion cyllido ac ystyriaethau gweithredol megis staffio ac ati.

#### 4. Cysylltiadau â Pholisïau Llywodraeth Cymru

**Ailysgrifennu'r Dyfodol-** Rydym yn ymrwymedig i egwyddor codi dyhead a chyrhaeddiad yn ysgolion Sir Gaerfyrddin trwy weithio'n frwd i ddileu'r rhwystrau a wynebwr gan ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Byddwn yn rhoi cymorth priodol i ddysgwyr gan gynnwys defnydd effeithiol a phriodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ym mhob lleoliad.

**Dyfodol Llwyddiannus-** Mae rôl y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei datgan yn eglur ac yn fynych yn y weledigaeth a geir yn y ddogfen Dyfodol Llwyddiannus. Rydym ni'n ymrwymedig, trwy lunio cwricwlwm ar gyfer Sir Gaerfyrddin, i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc, fel cyfrwng addysgu, fel cymhwysedd ac fel yr iaith ar gyfer cyfathrebu anffurfiol yn ein hysgolion.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** - Rydym yn ymrwmo i greu Sir Gaerfyrddin sy'n gymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

**Strategaeth Ddrafft Llywodraeth Cymru- miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050-** Rydym yn ymrwmo i gyflawni cynnydd sylweddol yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael addysg Gymraeg ac yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg, gan mai dim ond trwy alluogi mwy o bobl i ddysgu Cymraeg y bydd yn bosibl gwireddu'r uchelgais i fod â miliwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Byddwn yn canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar, oherwydd po gynharaf y mae plentyn yn cael cyswllt â'r iaith, po fwyaf o gyfle sydd gan y plentyn i ddod yn rhugl.

**Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif a'r Rhaglen Addysg-** Bydd rhaglen fuddsoddi Sir Gaerfyrddin yn ystyried y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac yn gweithio i ddatblygu amgylcheddau dysgu a fydd yn ei gwneud yn bosibl mynd ati'n llwyddiannus i gyflawni strategaethau ar gyfer gwella a deilliannau addysgol gwell.

## **5. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol dan Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hybu mynediad at addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.**

Mae'r awdurdod lleol yn ateb gofynion Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae addysg gynradd cyfrwng Cymraeg ar gael ym mron pob cymuned yn Sir Gaerfyrddin. Mae rhai ardaloedd e.e. Talacharn/Tremoilet/Llanmiloe lle mae mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn her. Mae gan y Cyngor Sir gynllun i ymateb i'r mater hwn. Yn y sector uwchradd mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i'r holl ddisgyblion. Mae pob cymuned ysgol yn rhan o ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg benodedig

## **6. Rôl a Chylch Gwaith y Fforwm Iaith**

- Helpu i ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac adnabod a datblygu mesurau perfformiad er mwyn i'r amcanion a'r targedau gael eu mesur/cyflawni/cyrraedd.
- Monitro amcanion a thargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni/cyrraedd.
- Sicrhau y croesgyfeirir at strategaethau a chynlluniau perthnasol eraill e.e. y Strategaeth Gymunedol Integredig
- Cyngori ynghylch cynnal *Arolwg o'r Angen* i gyngori ynghylch datblygu addysg cyfrwng Cymraeg
- Ystyried data ar gyrhaeddiad a chael adroddiadau ar agweddau penodol ar y Cynllun
- Ystyried yr adroddiadau monitro a ddarperir ar gyfer Llywodraeth Cymru a gwneud sylwadau arnynt.
- Darparu adborth ar gyfer y Pwyllgor Craffu, Panel Ymgynghorol yr Aelodau ar yr Iaith Gymraeg a phwyllgorau eraill yn ôl y gofyn
- Cael tystiolaeth gan bartïon/partneriaid perthnasol ac ystyried ffyrdd y gall y Cyngor a'r gymuned ehangach fynd i'r afael â her y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg
- Rhoi cymorth a her o ran gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Rhannu arfer effeithiol.

## **7. Gweithredu**

- **Cynllun Gweithredu i ategu y ddogfen strategol yma**
- **Cynllun peilot yn 2017/18 i gynorthwyo trawsdoriad o ysgolion cynradd ac uwchradd i symud ar hyd y continwmm iaith**

## 8. Deilliannau a Chynllun Gweithredu

### Deiliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r sefyllfa bresennol o ran nifer y plant saith oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg a'n targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf fel a ganlyn -

Sefyllfa bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
58.2%	59%	60%	61%

Er mwyn cyflawni'r deiliant hwn byddwn yn -

- Gweithio gyda darparwyr gofal plant/cyn-ysgol i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg, trwy hyrwyddo manteision dwyieithrwydd.
- Cyflawni consensws i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a chynorthwyo ysgolion i symud ar hyd y continwmm iaith.
- Hyrwyddo'r Siarteri Iaith a mentrau eraill er mwyn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i ddysgu ffurfiol
- Sicrhau safonau cyrhaeddiad uchel mewn Cymraeg ym mhob ysgol.

#### Datganiad Ategol:

Yn Sir Gaerfyrddin mae addysg gyn-ysgol yn cael ei darparu gan ysgolion a lleoliadau nas cynhelir. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan dargedu ardaloedd lle nad oes darpariaeth ar gael ar hyn o bryd. Byddwn yn rhoi cymorth ac arweiniad trwy ein tîm Blynnyddoedd Cynnar ac yn rhannu deunyddiau ynglŷn â gwerth dwyieithrwydd gyda rhieni fel bod ganddynt ddealltwriaeth well a'u bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch addysg statudol.

Byddwn yn rhoi cymorth ac arweiniad i ysgolion trwy ein tîm AGGaD o ran sut i ymateb i ymholiadau rhieni. Byddwn yn rhannu deunyddiau gyda rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ynglŷn â gwerth dwyieithrwydd er mwyn iddynt fod â dealltwriaeth well a gallu gwneud penderfyniadau gwybodus yn ystod pob cyfnod pontio. **Y nod yw cynyddu trosglwyddo rhwng y cylchoedd meithrin a'r Cyfnod Sylfaen cyfrwng Cymraeg**

Byddwn yn sicrhau bod rhieni, drwy ein llyfryn Gwybodaeth i Rieni yn gwybod pa ysgolion sy'n cynnig darpariaeth y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2-5 drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r wybodaeth am natur ieithyddol pob ysgol, yn unol â dogfen 'Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg' Llywodraeth Cymru, 2008, ar gael ar wefan y Cyngor Sir.

<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/addysg-ac-ysgolion/dod-o-hyd-i-ysgol/#.WAo01MuV-1s>

Mae'r diffiniad presennol o'n hysgolion cynradd fel a ganlyn-

Math o ysgol	Nifer	%	Nifer y disgyblion
Cyfrwng Cymraeg	58	58.6	6784
Trawsnewidiol	2	2	292
Dwy Ffrwd	11	11.1	2885
Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg	3	3	698
Cyfrwng Saesneg	25	25.3	4626

Er mwyn cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael byddwn yn ail-gyflunio'r ddarpariaeth bresennol trwy wneud y canlynol-

- Datblygu mwy o ofal plant/darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg
- Cynorthwyo ein hysgolion dwy ffrwd a thrawsnewidiol presennol i ddod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg
- Buddsoddi mewn sefydlu ysgolion Cymraeg/dwy ffrwd newydd gan ddefnyddio cyllid Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac Adran 106 os yn briodol.
- **Bydd cynllun Band B Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Sir yn sicrhau cynnydd arwyddocaol mewn lleoedd cyfrwng Cymraeg.**
- **Rhoddir ystyriaeth benodol i ysgolion sydd o fewn 10% o'u cynhwysedd.**
- Cynorthwyo ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.
- Ymestyn ystod oedran ysgolion penodol a chreu lle i gynnig darpariaeth blynnyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.
- Byddwn, gyda phartneriaid, yn monitro'n barhaus y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardaloedd trefol gan hyrwyddo ac ehangu darpariaeth yn ôl yr angen.
- Mae capasiti ysgolion Sir Gaerfyrddin yn cael ei fonitro yn rheolaidd ac mae cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i ymdrin ag unrhyw faterion. Ym mis Ionawr 2016, roedd gan 33% o ysgolion cynradd a 42% o ysgolion uwchradd gapasiti yn llai na 10%.
- Ystyried datblygiadau economaidd a thai ar effaith ar leoedd ysgol gan ehangu darpariaeth yn ôl yr angen.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid e.e. Llywodraeth Cymru, ERW, y Mentrau Iaith, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gwblhau ein deunydd hyrwyddo ynglŷn â manteision dwyieithrwydd. Byddwn yn sicrhau bod ein holl gyhoeddiadau'n seiliedig ar yr ymchwil wyddonol fwyaf diweddar a pherthnasol. Byddwn yn defnyddio astudiaethau achos ac enghreifftiau lleol o effaith gadarnhaol dwyieithrwydd ac yn eu rhannu gyda rhanddeiliaid. Byddwn yn mynd ati'n frwd i hyrwyddo gwerth bod yn ddwyieithog yn Sir Gaerfyrddin er mwyn gwireddu ein gweledigaeth.

Byddwn yn cefnogi ysgolion ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Bydd Siarteri Iaith Gymraeg '*Codi Caerau*' a '*Cymraeg Campus*' yn cael eu hyrwyddo a byddwn yn dathlu ac yn rhannu arfer da. Byddwn yn parhau i annog ystod o weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. y Mentrau Iaith, Yr Urdd, CFFI. **Hyrwyddir hyn drwy ddefnyddio'r Fframwaith Mapio Defnydd Cymdeithasol Pobl Ifanc fel sail ar gyfer y cydweithio. Amlygir rôl pob partner yn y ddogfen yma er sicrhau cynnydd yn nefnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg.**

Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi hwyrdyfodiaid trwy ddarparu pecynnau ymyrraeth mewn ysgolion a'r rheiny'n becynnau at ofynion unigol. **Byddwn yn ymchwilio i ymarferoldeb a chostau cysylltiedig gweithredu model trochi o fewn oes y cynllun; fodd bynnag, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni bydd angen cytundeb gwleidyddol a mewnbwn ariannol.**

Bydd ein Tîm Gwella Ysgolion yn cynorthwyo ac yn herio ysgolion i sicrhau bod deilliannau mewn Cymraeg yn cael eu gwella a'u cynnal. Byddwn yn cynnal astudiaeth o ddeilliannau a chyrhaeddiad ein dysgwyr mewn Cymraeg gyda ffocws ar addysgeg, cymedroli asesiadau ac adnoddau. Bydd hyn yn arwain at adnabod arfer effeithiol a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella. Gallai hyn gynnwys rhaglen o ffederasiynau rhwng ysgolion a fydd yn arwain at arweinyddiaeth cryfach a deilliannau gwell.

#### **Cyfrifoldeb**

- Penaethiaid Ysgolion Cynradd a'u Cyrff Llywodraethu



- Y Pennaeth Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Tîm Ymgynghorwyr Her
- Ymgynghorydd Her â chyfrifoldeb am y Gymraeg ac AGGaD
- Rheolwr Moderneiddio Ysgolion,
- Mudiad Meithrin

## Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella'u sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae ein sefyllfa bresennol a'n targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf o ran nifer y dysgwyr ym mlwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf) fel a ganlyn -

Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
42.2%	43%	44%	45%

Er mwyn cyflawni'r deilliant hwn byddwn yn-

- Hyrwyddo manteision dwyieithrwydd.
- Sicrhau dilyniant ieithyddol o'r blynyddoedd cynnar i Gyfnod Allweddol 2 ac ymlaen i'r sector uwchradd.
- Cynyddu darpariaeth addysg ddwyieithog yn y sector uwchradd.
- Mabwysiadu protocol dilyniant eglur i gynyddu nifer y disgyblion sy'n parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol a sicrhau bod hyn yn cael ei gyfleu yn eglur i'r holl randdeiliaid.

**Mae'r uchod i'w gynllunio ar sail dadansoddiad o dueddiadau trosglwyddo cyfredol.**

### Datganiad Ategol:

Mae'r diffiniad presennol o'n hysgolion uwchradd fel a ganlyn -

Math o ysgol	Nifer Ysgolion	%	Nifer y disgyblion
Cyfrwng Cymraeg- 1	1	8.3	877
Dwyieithog - 2A	2	16.6	1920
Dwyieithog - 2B	2	16.6	2757
Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg (EW)	3	25	2779
Cyfrwng Saesneg (EM)	4	33.3	2848

Er mwyn cynyddu nifer y lleoedd **mewn ysgolion Cymraeg a** dwyieithog sydd ar gael byddwn yn ail-gyflunio'r ddarpariaeth bresennol trwy wneud y canlynol-

- Cynyddu nifer y pynciau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein hysgolion 2B, EW a EM.
- Sicrhau bod ein hysgolion EW a EM yn darparu Cymraeg fel iaith 1<sup>af</sup>.
- Cyn diwedd y cynllun byddwn yn mesur y galw am addysg ddwyieithog yn ein hardaloedd trefol gyda ffocws ar addysg uwchradd.

Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith yn rhugl erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 i'w lefelau disgwylidig. Byddwn yn datblygu protocol sy'n nodi ein disgwyladau y bydd dysgwyr sydd wedi dilyn y rhaglen Cymraeg iaith 1<sup>af</sup> yn yr ysgol gynradd yn parhau â'r rhaglen hon wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Bydd hefyd yn mynegi ein disgwylid y bydd yr holl ddysgwyr sydd wedi mynychu ysgolion **cynradd a ddiffinir fel rhai dwyieithog yn astudio o leiaf 3-5 maes cwricwlaidd trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3** er mwyn sefydlu eu cymhwysedd ieithyddol a'i ddatblygu ymhellach. **Gwireddir hyn drwy dargedu hyfforddiant i staff CA3 yn yr ysgolion dan sylw, yn y man cyntaf mewn prosiect peilot dan nawdd ERW/LIC, i'w weithredu yn 2017/18.**

O'r disgyblion BI 6 a gafodd eu hasesu yn Gymraeg yn 2013 (808 disgybl/56.5% o ddisgyblion y Sir) cafodd 751 disgybl/92.9% ohonynt eu hasesu yn y Gymraeg (fel pwnc) ar ddiwedd CA3 yn



2016. Yn amlwg mae gostyngiad yn y niferoedd a bydd hyn yn cael sylw gan yr uchod **ac yn destun ffocws penodol gyda phrifathrawon uwchradd er rhagori ar y canrannau presennol.**

**Cyfrifoldeb**

- Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd a'u Cyrff Llywodraethu
- Y Pennaeth Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Ymgynghorydd Her â chyfrifoldeb am y Gymraeg ac AGGaD
- Mudiad Meithrin

**Deilliant 3: Mwy o ddisgyblion 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Deilliant 4: Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr 14-19 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig-ar-waith**

Mae ein sefyllfa bresennol a'n targedau o ran y ganran o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) ac a gofrestrwyd ar gyfer 2 neu'n fwy o gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg fel a ganlyn -

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
66%	67%	68%	69%

Mae ein sefyllfa bresennol a'n targedau o ran y ganran o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) ac a gofrestrwyd ar gyfer 5 neu'n fwy o gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 pellach trwy gyfrwng y Gymraeg fel a ganlyn –

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
57%	58%	59%	60%

\* Nodyn: Mae'r targedau'n ymwneud ag 8 ysgol (1xcategori 1; 2x2A; 2x2B; 3xEW) sydd yn cyflwyno darpariaeth, fel y'i disgrifir yn y naratif uchod.

Er mwyn cyflawni'r deilliant hwn byddwn yn -

- Cynyddu nifer y pynciau a gynigir ac a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwella'r ddarpariaeth ac ansawdd yr addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gyda phwyslais ar hyfforddi staff ar bob lefel o ran rhuglder a thrwy ddefnyddio ystod o ddulliau
- Sicrhau cynnydd mewn safonau o'i gymharu â dangosyddion cydnabyddedig.

**Datganiad Ategol:**

**Rydym yn bwriadu symud pob ysgol gynradd ac uwchradd ar hyd y continwwm iaith** (ac eithrio'r ysgolion hynny sydd eisoes yn gweithredu'r model yn ei gyfanrwydd). **Byddwn yn trefnu fod o leiaf 4 ysgol uwchradd yn symud ar hyd y continwwm iaith o fewn oes y cynllun.** Mae hyn yn golygu amserlen gymharol fyrrach i'r ysgolion hynny sydd eisoes ar y siwrne; i eraill, bydd yn nod mwy hirdymor. Byddwn yn datblygu rhestr o ysgolion gyda'r disgwyliadau priodol yn cael eu nodi yn y strategaeth hon ac yn sicrhau bod y cynnydd a geisir yn rhesymol ac yn gyraeddadwy.

Ar gyfer y tymor canolig/hwy (5 mlynedd+) byddwn yn symud ysgolion ar hyd y continwwm. **Yn y tymor byr (erbyn 2020) byddwn yn pennu targedau ac yn cynorthwyo ysgolion uwchradd 2A, 2B, 2C, EW a EM i gynyddu'r niferoedd sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.** Dylai'r ffigyrau hyn gynnig her briodol, ond bod yn rhesymol ac yn gyraeddadwy, gyda chymorth priodol.

Bydd hefyd yn bwysig gweithio gyda chyflogwyr a sicrhau gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn targedu meysydd galwedigaethol a phwysleisio pwysigrwydd ethos ysgolion a'r cwricwlwm cudd gan fynd ati ar yr un pryd i hyrwyddo hunaniaeth a diwylliant Cymreig ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd, rydym yn amcanu at weithredu argymhellion yr adolygiad o'r cwricwlwm 11-19 yn Sir Gaerfyrddin: *Bydd y cwricwlwm a nodir yn yr Adolygiad 11-19 yn cael ei ddatblygu yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog lle y bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys blaenoriaethu opsiynau o ran cyrsiau i sicrhau ystod a chontinwmm ieithyddol o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr yn unol â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd rôl rhwydwaith clwstwr y Bartneriaeth Addysg Gymraeg (PAG) sy'n cynnwys Ysgolion Cymraeg, Coleg Sir Gâr a chyflogwyr lleol allweddol yn hanfodol i sicrhau bod dilyniant effeithiol i opsiynau o ran cyrsiau cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5 ar gael. Bydd cysylltiadau cryfach â darpariaeth addysg uwch leol trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu datblygu hefyd i alluogi pobl ifanc i gael dilyniant ieithyddol pellach'.*

Byddwn hefyd yn datblygu partneriaethau strategol a pholisi gyda rhanddeiliaid ar bob lefel, gan gynnwys yr Ymgynghorydd Proffesiynol Cymraeg mewn Addysg (Llywodraeth Cymru). Hefyd, byddwn yn lobiö Llywodraeth Cymru am adnoddau a datblygiadau mewn darpariaeth drosfwaol a fyddai'n ategu gweithgarwch ar Lefel Sirol. Gallai hyn olygu newidiadau i ddeddfwriaeth/rheoliadau. Yn fwy lleol rydym yn dymuno arwain ar y Gymraeg o fewn y Cwricwlwm mewn cydweithrediad â rhanbarth ERW, gan hyrwyddo canfyddiadau dogfen strategol ar y lefel hon a gweithio'n rhagweithiol i weithredu argymhellion 21-30 yn Adolygiad Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus', yn ysgolion y sir fel yr amlygwyd yn yr adroddiad mewnol, 'Palmantu'r Ffordd'.

**Cyfrifoldeb**

- Penaethiaid Ysgolion Uwchradd a'u Cyrff Llywodraethu
- Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr
- Pennaeth Effeithiolrwydd Ysgolion a'r tîm Ymgynghorwyr Her
- Ymgynghorydd Her â chyfrifoldeb am y Gymraeg ac AGGaD

**Deilliant 5: Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg**

Mae ein sefyllfa bresennol a'n targedau o ran cyfanswm cofrestriadau Lefel A Cymraeg iaith Gyntaf presennol fel canran o'r cofrestriadau TGAU Cymraeg iaith Gyntaf ddwy flynedd yn gynharach fel a ganlyn -

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
3.7%	4%	4.3%	4.6%

Mae ein sefyllfa bresennol a'n targedau o ran cyfanswm cofrestriadau Lefel A Cymraeg ail iaith presennol fel canran o'r cofrestriadau TGAU Cymraeg Ail iaith cwrs llawn a byr ddwy flynedd yn gynharach fel a ganlyn-

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
1.3%	1.5%	1.8%	2%

Er mwyn cyflawni'r deilliant hwn byddwn yn-

- Creu Cymuned Ddysgu Broffesiynol ar draws yr ALI/ERW i drafod llwyddiannau a heriau a sut i fynd i'r afael â hwy.
- Parhau i weithio gyda chyflogwyr ac addysg uwch i hyrwyddo dwyieithrwydd fel sgil allweddol ar gyfer addysg bellach a byd gwaith.
- Gwneud gwaith pellach i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau anffurfiol (e.e. gwirfoddoli, Gwobr Dug Caeredin, Clybiau Ieuencid).
- Hyrwyddo sgiliau gwell ar gyfer defnydd gydol oes o'r Gymraeg (ymchwil i fodiwl Cymraeg Proffesiynol a datblygu modiwl o'r fath ar gyfer disgyblion ôl-16 e.e. trwy Fagloriaeth Cymru).

### **Datganiad Ategol:**

Rydym yn bwriadu trafod ffyrdd o recriwtio mwy o bobl ifanc i gyrsiau Cymraeg Safon Uwch/Uwch Gyfrannol yn enwedig bechgyn. Rydym hefyd yn dymuno ystyried cydweithio er mwyn datblygu cwrs uwch mewn Cymraeg Proffesiynol. Bydd y cwrs yma'n cael ei gynnis:

- fel cwrs Safon Uwch/Uwch Gyfrannol yn ei rinwedd ei hun
- trwy elfennau modwlar annibynnol y gall disgyblion anelu amdanynt, ni waeth pa un a ydynt yn astudio Cymraeg i Safon Uwch ai peidio e.e. Tystysgrif/achrediad Ôl-16 mewn Cymraeg i Wyddonwyr. Gall hyn olygu ymchwilio i bosibiliadau pellach o fewn Bagloriaeth Cymru trwy annog disgyblion nad ydynt ar lwybrau Cymraeg academiaidd i hogi eu sgiliau e.e. tuag at fod yn rhugl o fewn ein fframwaith sgiliau.

Tuag at y tymor canolig a'r tu hwnt, rydym yn amcanu at gynnis mewnbwn cadarnhaol gan hefyd ddatblygu'r Gymraeg fel un continwmm, gan gynnwys opsiynau yn y tymor canolig i roi cofrestriad deul i ddisgyblion ar lefel TGAU, yn yr ysgolion perthnasol. Hefyd, rydym yn dymuno: datblygu a hyrwyddo'r cyfraniad y gall disgyblion hŷn mewn ysgolion 11-18 ei wneud fel esiamplau a mentoriaid e.e. trwy fentrau megis PCAI; ymestyn rhuglder gweithwyr yn y Gwasanaeth Ieuenctid, yn enwedig gweithwyr sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion er mwyn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg a datblygu deunydd hyrwyddo sy'n dangos y gwerth y mae cyflogwyr yn ei roi ar ddwyieithrwydd.

Byddwn yn cefnogi ysgolion ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Byddwn yn parhau i gefnogi ystod o weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym gynlluniau i gyflwyno Siatr Iaith uwchradd o fewn ystod oes y cynllun. Bydd y siatr hwn yn pwysleisio manteision atgyfnerthu gafael ar y Gymraeg drwy ei hymarfer a'i defnyddio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

### **Cyfrifoldeb**

- Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr
- Cydlynwyr y Gymraeg/Llythrennedd mewn ysgolion
- Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu
- Pennaeth Effeithiolrwydd Ysgolion a'r tîm
- Aelodau o'r Fforwm Iaith
- Ymgynghorydd Her â chyfrifoldeb am y Gymraeg ac AGGaD

### **Deiliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol**

Er mwyn cyflawni'r deiliant hwn byddwn yn -

- Parhau i sicrhau bod yr holl wasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael yn ddwyieithog.
- Datblygu system ddwyieithog i ymateb i'r agenda ddiwygio ar gyfer ADY.
- Gweithio gyda'n Hysgolion/Unedau Arbennig a'r Tîm Cynnal Ymddygiad i ddatblygu'r ddarpariaeth ddwyieithog ymhellach.
- Gwneud gwaith pellach i ddatblygu sgiliau ein Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol i gefnogi dysgwyr.

### **Datganiad Ategol:**

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ar gyfer dysgwyr Sir Gaerfyrddin. Mae ein gweledigaeth fel a ganlyn - *'Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau*

*bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i wireddu ei botensial mewn amgylchedd ddwyieithog sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi pob diwylliant a thraddodiad.'*

Gan fod cyfran uchel o'n hysgolion yn ddwyieithog rydym yn gallu cydymffurfio â cheisiadau am ddarpariaeth addysg brif ffrwd mewn modd amserol. Mae'r holl wasanaethau cymorth a phrosesau statudol ar gael yn ddwyieithog ac rydym yn rhoi hyfforddiant a chymorth i Gydlynwyr ADY er mwyn iddynt allu diwallu anghenion pob dysgwr.

Mae pob ymyrraeth ar gael yn ddwyieithog ac rydym yn ymrwmo i sicrhau bod yr holl adnoddau a ddatblygir yn Sir Gaerfyrddin ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn parhau i fonitro ceisiadau am gymorth arbenigol a gweithio gydag arweinwyr ysgolion, Cydlynwyr ADY a swyddogion cynhwysiant i adnabod meysydd i'w datblygu a byddwn yn cynnwys y datblygiadau hyn yn ein cynllun moderneiddio ysgolion.

Byddwn yn mabwysiadu'r ffordd newydd o weithio a chefnogi dysgwyr ag ADY (Plentyn-ganolog, Cynllun Datblygu Unigol, a Llais y Plentyn) gan sicrhau bod y dull ar gael yn ddwyieithog.

Rydym yn cydnabod bod darpariaeth ddwyieithog yn ein Hysgolion a'n Hunedau Arbennig yn **gymharol** gyfyngedig. Byddwn yn gweithio gyda'r lleoliadau hyn i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog er mwyn sicrhau bod dysgwyr ag anghenion ychwanegol cymhleth yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth ddwyieithog a chael cymorth yn eu dewis iaith. **Bydd awdit manwl pellach yn cael ei gynnal yn Nhymor y Gwanwyn 2018. Rhagwelir y bydd modd ymateb i'r canfyddiadau yn Nhymor yr Haf 2018, ac mewn rhaglen dreigl yn arwain ymlaen at ddiwedd ystod oes y cynllun strategol.**

#### **Cyfrifoldeb**

- Rheolwyr Cynhwysiant
- Staff Ymgynghori'r Awdurdod
- Partneriaid e.e. Swyddogion y Bwrdd Iechyd
- Penaethiaid a Chydlynwyr ADY

#### **Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.**

Er mwyn cyflawni'r deilliant hwn byddwn yn -

- Defnyddio holiaduron sgiliau iaith i ganfod lefelau sgiliau iaith Gymraeg yr holl staff.
- Er mwyn datblygu sgiliau a hyder y gweithlu ysgolion presennol, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid (ERW, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol) i ddarparu rhaglenni hyfforddi gyda ffocws penodol ar addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gweithio gyda phartneriaid ar recriwtio, datblygu a hyfforddi'r gweithlu ysgolion yn y dyfodol er mwyn gallu cyflawni'r Cynllun hwn a dyhead Llywodraeth Cymru i fod â 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'.
- Rhoi cymorth a chynghor i Lywodraethwyr ac arweinwyr ysgolion mewn perthynas â phenodi a datblygu staff.

#### **Datganiad Ategol:**

Bydd yr holl ddarparwyr yn cynnal holiadur bob chwe mis i ganfod Sgiliau Iaith Gymraeg y gweithlu ysgolion. Bydd dadansoddi'r data'n adnabod y ddarpariaeth bresennol a meysydd i'w datblygu ymhellach a fydd yn cael eu hadlewyrchu yn hunanarfarniad yr ysgol a'r ddogfennaeth datblygu ysgol. Bydd yn ofynnol i ysgolion ddefnyddio'u hadnoddau i ddarparu cyfleoedd i staff ddatblygu.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw broblemau o ran recriwtio staff addysg sy'n siarad Cymraeg i weithio yn ein hysgolion Cymraeg. Fodd bynnag, mae heriau o ran recriwtio arweinwyr ysgolion sy'n siarad Cymraeg yn dod yn fwy amlwg ac rydym yn bwriadu cynllunio a ffurfioli ffederasiynau i gynorthwyo'r sefyllfa. Byddwn yn rhoi arweiniad a hyfforddiant ac yn cefnogi'r rôl arwain newydd hon trwy hwyluso cymorth rhwng ysgolion.

Bydd dadansoddiad pellach gan yr Awdurdod Lleol o ddata ar y gweithlu yn ein hysbysu ynghylch bylchau yn y ddarpariaeth ac anghenion hyfforddi yn y dyfodol/cynnwys rhaglenni hyfforddi. Cynhaliwyd un awdit eisoes yn Ebrill 2017. At hynny, mae cynllun peilot i hyfforddi staff mewn 4 ysgol uwchradd a hyd at 12 ysgol gynradd yn cael ei gynllunio ar gyfer dechrau yn Nhymor yr Hydref 2017. Gan fod y Cynllun yn cynnwys cyfeiriadau at wella darpariaeth ddwyieithog byddwn yn gweithio gyda phartneriaid e.e. Consortia/Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gennym weithlu ysgolion sy'n meddu ar sgiliau addas. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu'r Safonau Proffesiynol newydd i Athrawon, cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg fel pwnc a gweithio'n effeithiol mewn lleoliadau dwyieithog, manteisio ar lwybrau amgen i mewn i'r proffesiwn addysgu, cael mynediad at systemau cenedlaethol ar gyfer cynllunio'r gweithlu a'r dull Cymru gyfan mewn perthynas ag ysgolion bach a gwledig.

Byddwn yn cynnig hyfforddiant i staff er mwyn gwella sgiliau darllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg, ac er mwyn mireinio sgiliau Cymraeg y rhai sydd eisoes â gafael ar yr iaith. Byddwn yn defnyddio Fframwaith Sgiliau Iaith y Cyngor Sir, sy'n seiliedig ar ein fframwaith sgiliau iaith, fel sail ar gyfer y gwaith yma. Hefyd, rydym yn bwriadu datblygu sgiliau a hyder athrawon i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd uwchsgilio staff cymorth i gynorthwyo disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ben hynny, byddwn yn uwchsgilio staff i sicrhau y mabwysiedir addysgeg briodol, er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal a'u codi wrth addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn gael ei gefnogi gan Arweinwyr Dysgu a Chymunedau Dysgu Proffesiynol er mwyn sicrhau cymorth ymarferol i ymarferwyr sy'n addysgu'n fwyfwy trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Gall hyn arwain wedyn at weithio gyda chyhoeddwr deunyddiau addysgol (e.e. CAA, Peniarth, asiantaethau allanol) i ddatblygu adnoddau addysgu, apiau a.y.b. a gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau adnoddau ariannol i ddatblygu'r agwedd hon.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi cymorth a her i Lywodraethwyr ac arweinwyr ysgolion mewn perthynas â phenodi staff sydd â chymwysterau addas er mwyn iddynt allu ateb gofynion y Cynllun hwn a pharhau i wella safonau addysgol. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Consortia ar hyfforddi'r gweithlu ysgolion a datblygu arweinwyr.

### Cyfrifoldeb

- Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu
- Swyddogion Adnoddau Dynol
- Ymgynghorydd Her
- Ymgynghorydd Her â chyfrifoldeb am y Gymraeg ac AGGaD

Llofnod:

Dyddiad: .....

(Mae angen i hwn gael ei lofnodi gan y Prif Swyddog Addysg mewn awdurdod lleol)

**Atodiad 1- DATA**

<b>Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</b>				
Cynyddu'r ddarpariaeth	Presennol	2017-18	2018-19	2019-20
Beth yw canran y dysgwyr 7 oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?	58.2	59%	60%	61%

<b>Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd</b>				
	Presennol	2017-18	2018-19	2019-20
Beth yw canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith Gyntaf)?	42.2	43%	44%	45%
Sut mae'r ffigwr hwn yn cymharu â chanran y dysgwyr Blwyddyn 6 a aseswyd mewn Cymraeg (iaith gyntaf) dair blynedd yn gynharach?	50.4 (-8.2)			

<b>Trosglwyddo effeithiol a pharhad ieithyddol/</b>	
Beth yw cyfraddau dilyniant ieithyddol rhwng	
Ileoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen;	I'w gadarnhau
Ileoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a lleoliadau nas cynhelir a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen;	I'w gadarnhau
Ileoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog;	I'w gadarnhau
Ileoliadau gofal plant nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a lleoliadau nas cynhelir cyfrwng Cymraeg a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac wedyn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog;	I'w gadarnhau
y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2;	93.1
Cyfnodau Allweddol 2 a 3	92.9
Cyfnodau Allweddol 3 a 4.	98.6

*Os oes gan eich awdurdod ysgolion uwchradd dwyieithog (categori 2A, 2B, 2C a 2CH) mae angen darparu data ar gyfer pob ysgol gan ddangos faint o ddisgyblion sydd yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg a faint ohonynt sydd yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, fesul bob cyfnod allweddol os gwelwch yn dda.*

<b>Enw'r Ysgol</b>	<b>Ffrwd Cymraeg</b>			<b>Ffrwd Saesneg</b>		
DYFFRYN AMAN (2B)	KS3- 369	KS4- 277	KS5- 4	KS3-365	KS4-264	KS5-271
BRO DINEFWR (2B)	KS3- 353	KS4- 258	KS5 - 5	KS3-162	KS4-162	KS5-185
STRADE (2A)	KS3- 540	KS4- 335	KS5- 181	KS3- 0	KS4- 0	KS5- 0
MAES Y GWENDRAETH (2A)	KS3- 451	KS4- 235	KS5- 157	KS3- 0	KS4- 0	KS5- 0

<b>Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.</b>				
<b>Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith</b>				
<b>Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.</b>				
	Presennol	2017-18	2018-19	2019-20
Beth yw canran y myfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau pellach lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg?	66%	67%	68%	69%
Beth yw canran y myfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o	57%	58%	59%	60%



gymwysterau pellach lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg?				
<b>Cynyddu canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion</b>				
<i>Beth yw canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau-</i>				
a) drwy gyfrwng y Gymraeg?			38.5	
b) yn ddwyieithog (e.e. elfennau o gymwysterau/ modiwlau)?			7.5	
<b>Deilliant 5: Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg</b>				
<b>Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg iaith 1<sup>af</sup></b>	<b>Presennol</b>	<b>2017-18</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>
Beth yw canran y disgyblion diwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd o leiaf Deilliant 5 mewn iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog?	90.4%	91%	91.5%	92%
Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg?	88.3%	89%	89.5%	90%
Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg?	88.5%	89%	89.5%	90%
Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C Cymraeg iaith gyntaf.	72.8%	73.5%	74%	75%
<b>Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg ail iaith</b>	<b>Presennol</b>	<b>2017-18</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>
Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail iaith?	66.5%	67%	68%	69%
Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail iaith?	78.4%	80%	82%	83%
Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail iaith Cwrs Llawn?	82.1%	83%	84%	85%
Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail iaith Cwrs Byr?	74.9%	76%	77%	78%
Pa ganran o'r garfan sydd wedi cofrestru ar gyfer-				
(i) TGAU Cymraeg Ail iaith Cwrs Llawn?	63.9			60%
(ii) TGAU Cymraeg Ail iaith Cwrs Byr?	Dim			Dim
(iii) heb eu cofrestru ar gyfer y naill na'r llall?	5.2			4.2%
<b>Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch</b>				
Beth yw cyfanswm cofrestriadau Lefel A Cymraeg iaith Gyntaf presennol fel canran o'r cofrestriadau TGAU Cymraeg iaith Gyntaf ddwy flynedd yn gynharach?				3.7
Beth yw cyfanswm cofrestriadau Lefel A Cymraeg ail iaith presennol fel canran o'r cofrestriadau TGAU Cymraeg Ail iaith cwrs llawn a byr ddwy flynedd yn gynharach?				1.3

**Atodiad 2- Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg**



**Ysgolion Cynradd**

<b>Cyfrwng Cymraeg [WM]</b>	<b>Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg-</b> Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 ac mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff Saesneg ei gyflwyno yn ffurfiol fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 a chaiff ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae'n bosibl y defnyddir Saesneg hefyd ar gyfer rai agweddau ar rai pynciau.
<b>Dwy Ffrwd [DS]</b>	<b>Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd-</b> Mae dau fath o ddarpariaeth yn bodoli ochr yn ochr yn yr ysgolion hyn. Mae'r rhieni/disgyblion yn dewis naill ai'r ddarpariaeth sy'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg (WM), neu'r ddarpariaeth sy'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg (EM).
<b>Trawsnewidiol [TR]</b>	<b>Ysgol Gynradd Drawsnewidiol: cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg-</b> Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Defnyddir y naill iaith a'r llall i addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Gymraeg, sy'n gyfrwng addysgu ar gyfer dros hanner a hyd at 70% o'r cwricwlwm. (Dim ond dros dro y byddai ysgolion yn y categori hwn fel arfer)
<b>Saesneg yn bennaf (â defnydd sylweddol o'r Gymraeg) [EW]</b>	<b>Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg -</b> Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu yn y naill iaith a'r llall ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg wrth addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu ar gyfer 20% - 50% o'r cwricwlwm cynradd yn gyffredinol.
<b>Saesneg yn bennaf [EM]</b>	<b>Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf-</b> Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. Saesneg yw'r prif gyfrwng addysgu yn CA2. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith yn CA2, ac mae'n bosibl y caiff rhai agweddau ar rai pynciau eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llai na 20% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ysgolion Uwchradd**

<b>1</b>	<b>Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg-</b> Addysgir pob pwnc (gan gynnwys Addysg Grefyddol ac ABCh) heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl, er bod rhai ysgolion, o bosibl, yn cyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau.
<b>2A</b>	<b>Ysgol Uwchradd Ddwieithog-</b> Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.
<b>2B</b>	<b>Ysgol Uwchradd Ddwieithog-</b> Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
<b>2C</b>	<b>Ysgol Uwchradd Ddwieithog-</b> Addysgir 50 - 79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
<b>EW</b>	<b>Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg-</b> Addysgir yn y naill iaith a'r llall, ac addysgir 20 - 49% o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rheol, byddai pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
<b>EM</b>	<b>Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf-</b> Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at CA4. Mae'n bosibl y gellir dewis dysgu un neu ddau bwnc (a allai gynnwys y Gymraeg fel iaith gyntaf) drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y naill iaith a'r llall.

**Atodiad 3- Acronymau**

<b>ADY</b>	Anghenion Dysgu Ychwanegol
------------	----------------------------

<b>AGGaD</b>	Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd
<b>ALI</b>	Awdurdod Lleol
<b>CAA</b>	Cyhoeddwr Cymraeg
<b>CFfl</b>	Clybiau Ffermwyr Ifanc
<b>CSyGMA</b>	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
<b>Cyfnod Allweddol 2</b>	Yr ail gyfnod statudol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru (7-11 oed).
<b>Cyfnod Allweddol 3</b>	Y trydydd cyfnod statudol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru (11-14 oed).
<b>Cyfnod Allweddol 4</b>	Y pedwerydd cyfnod statudol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru (14-16 oed).
<b>Cyfnod Allweddol 5</b>	Y pumed cyfnod statudol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru (16-18 oed).
<b>Cyfnod Sylfaen</b>	Y cyfnod statudol ar gyfer dysgwyr 3 i 7 oed yng Nghymru
<b>ERW</b>	Mae ERW yn gynghrair o chwe awdurdod lleol (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe) sy'n gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar strategaeth ranbarthol a chynllun busnes i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.
<b>PAG</b>	Partneriaeth Addysg Gymraeg Sir Gar
<b>PCAI</b>	Prosiect Cefnogi Arferion Iaith
<b>Peniarth</b>	Cyhoeddwr Cymraeg
<b>TGAU</b>	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
<b>Yr Urdd</b>	Mudiad Ieuencid